
Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenwyr ifanc!

# Dod i adnabod


# Pryderi Gwyn Jones




## Crynodeb:

Mae Jones yn athro Cymraeg canol oed: yn amyneddgar yn y dosbarth, yn gymydog da, yn gefnogol i'w wraig, ac yn ddylanwad da ar ei blant.

Ond yn oriau tywyll y nos mae Jones yn gwrthryfela, ac yn rhan o ymgyrch i dalu'r pwyth yn ôl am un o'r camweddau mwyaf yn holl hanes Cymru. All Jones, gyda chymorth Bob Marley, Bendigeidfran, Fidel Castro, Saunders Lewis, Oppenheimer, Jemima Niclas, Harri Webb, William Williams Pantycelyn a gweddill criw Seion, ddinistrio dinas Lerpwl?




## Bywgraffiad

Ganed Pryderi Gwyn Jones yn Aberystwyth, a chafodd ei fagu yn Llansannan, Dyffryn Clwyd, ac ym Mangor. Wedi cyfnod o deithio gwledydd Ewrop a De America symudodd i'r canolbarth. Mae'n athro ysgol ers blynyddoedd, yn hoff o siarad am bêl-droed ac yn mynd i focsio i Gorris Uchaf bob wythnos. Mae wedi ysgrifennu sawl llyfr i blant: *Brenin y Trenyrs* (2020), *Kaiser y Trenyrs* (2021) a *Tywysog y Trenyrs* (2021).

**Rho ychydig o dy gefndir inni...**
Cefais fy ngeni yn Aberystwyth a fy magu ym mhentref Llansannan ac yn ninas Bangor. Bûm yn Ysgol Gynradd Bro Aled, yn Ysgol Uwchradd y Creuddyn ac ym mhrifysgol Cymru, Bangor. Crwydrais am gyfnod drwy wledydd dwyrain Ewrop a hefyd treuliais fisoedd yn crwydro drwy wledydd De America.

**Pa ddylanwadau ac atgofion oedd yn sefyll allan yn dy blentyndod?**
Mae caredigrwydd pobl Llansannan a'r ardal wedi aros efo fi. Hefyd, y croeso fydden ni'n gael wrth ymweld â'r teulu yn Sir Fôn ers talwm.

**Beth yw dy ddylanwadau nawr?**
Yn Gymraeg, rwyf yn hoff o nofelau a straeon byrion Daniel Davies. Hefyd llyfrau Bethan Gwanas a Manon Steffan Ros. Rwyf ar ganol darllen llyfr *Drws Anna* gan Dafydd Apolloni ar y funud. Mae cyfrolau o farddoniaeth gen i hefyd, rhai Gerallt wrth gwrs a rhai gan feirdd mwy diweddar fel Gruffydd Owen. Yn Saesneg, rydw i wedi darllen nofelau Haruki Murakami i gyd ac ambell lyfr gan Matt Haig. Mae llyfrau Milan Kundera ar y silff ac awduron enwocaf gwledydd dwyrain Ewrop.

**Pryd ddest ti'n ymwybodol dy fod eisiau sgwennu, oedd unrhyw ffactorau arbennig wedi cael effaith?**
Wel, yng Nghymru mae yna gyfleoedd i ysgrifennu o hyd, yn does. Eisteddfodau, cystadlaethau a phapurau bro! Os cewch eich canmol fe gewch chi ryw hwb bach i ddal ati.

**Beth yw dy hoff genres darllen, a pha lyfrau wyt yn darllen ar hyn o bryd?**
Dwi'n mwynhau darllen pob math o wahanol genres. Nofelau hanesyddol, nofelau modernaidd ac ôl -fodernaidd. Rydw i'n mwynhau y dychymyg mewn nofelau fabula neu ddamhegol sydd yn mynd â phethau ychydig yn bellach os leciwch chi ac yn plygu peth ar realaeth. Mae hynny'n ddiddorol iawn i mi.

**Pa awgrymiadau sydd gyda ti i annog plant a phobl ifanc i ddarllen mwy er pleser?**

Mae fy nhrwyn mewn rhyw lyfr neu'i gilydd efo'r plant yn yr ysgol o hyd. Rydw i yn mwynhau darllen nofel efo fy nosbarthiadau. Rydw i yn dweud wrthyn nhw fy mod i yn medru dweud yn syth pwy sydd yn darllen ar eu pennau eu hunain...achos bod pobl sydd yn darllen yn bobl ddiddorol. Wrth ddarllen fe gewch chi edrych drwy ffenestri eraill ar y byd.

**Rho ddyfyniad sydd wrth wraidd dy fywyd di ...**
Cymru am byth!

carreg-gwalch.cymru

Llyfrgelloedd Cymru
Cael mwy o'ch llyfrgell

... mwy C&A ar wefan llyfrgelloedd.cymru